

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)**

Gofal Deintyddol Madoc

Dyddiad yr arolygiad: 1 Awst 2017

Dyddiad cyhoeddi: 2 Tachwedd  
2017

**Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.**

**Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:**

**Yn ysgrifenedig:**

**Y Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

**Neu drwy**

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
Ffacs: 0300 062 8387  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	19
4.	Beth nesaf? .....	21
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	22
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	23
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	24
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	25

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

**Darparu sicrwydd:**

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

**Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ofal Deintyddol Madoc, 3 Stryd Madoc, Llandudno, Conwy, LL30 2TL, ar 1 Awst 2017.**

**Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.**

**Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.**

**Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.**

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Gofal Deintyddol Madoc yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddid digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, a gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd
- Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth hwn yn cael ei reoli'n dda iawn, gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis
- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus iawn yn eu swyddi, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roedd ganddynt ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd digon o gyfleusterau ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cofnodi nodiadau cleifion
- Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth
- Llunio ffeil benodol ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
- Sicrhau bod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal

- Sicrhau bod staff yn diweddarau eu hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed lle bo angen

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Practis deintyddol preifat yn unig yw Gofal Deintyddol Madoc.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, hylenydd, pedair nyrs ddeintyddol, derbynnydd, a rheolwr practis ymroddedig.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat.



## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Gofal Deintyddol Madoc yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 20 holiadur a gwblhawyd, oddi wrth gleifion cymharol newydd (y rhai a oedd wedi bod yn gleifion ers llai na dwy flynedd) yn ogystal ag oddi wrth gleifion hirdymor y practis (y rhai a oedd wedi bod yn glaf am fwy na dwy flynedd).

Ar y cyfan, roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn. Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Nid awgrymwyd unrhyw welliannau oherwydd roedd y cleifion eisoes yn hapus iawn â'r gwasanaeth a ddarparwyd yn y practis. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

'Does dim angen unrhyw welliannau, practis effeithlon iawn'

'Does dim angen unrhyw welliannau, yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth'

'Rhagorol!'

## Cadw'n iach

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd amryw bosteri a dalenni gwybodaeth yn cael eu harddangos, a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol a gwybodaeth am iechyd y geg. Roedd

arwyddion 'Dim ysmegu' yn cael eu harddangos yn y practis. Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn glir yn y dderbynfa.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## **Gofal ag urddas**

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi'u trin â pharch wrth ymweld â'r practis a'u bod wedi'u croesawu gan dîm y practis.

Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd yr holl staff yn ei ddefnyddio wrth ymdrin â chleifion.

Roedd gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys manau i gleifion gynnal sgysiau preifat â staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu derbyn yn breifat i ffwrdd o gleifion.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

## **Gwybodaeth i gleifion**

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch ei driniaeth i'r graddau yr oedd yn dymuno, a'i fod wedi cael gwybodaeth glir am ei driniaeth ddeintyddol, gan gynnwys yr opsiynau a oedd ar gael iddo o ran triniaeth a'r prisiau cysylltiedig. Er i'r rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur ddweud bod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth, dywedodd tua chwarter o'r cleifion wrthym nad oeddent yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Gwnaethom nodi bod gwybodaeth am brisiau ar gael i'w gweld yn y dderbynfa, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei gostio.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis yn cael ei harddangos o gwmpas y dderbynfa a'r man aros. Roedd gan y practis daflen wybodaeth unigryw i gleifion fynd adref gyda nhw.

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel i sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei hamddiffyn.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y cleifion a wnaeth gwblhau holiadur ac a oedd yn siaradwyr Cymraeg wrthym mai dim ond o bryd i'w gilydd roeddent yn gallu siarad â staff yn Gymraeg. Dywedodd yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur, heblaw un, eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon bob amser, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd bron tri chwarter o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad i'r gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau os oedd problem ddeintyddol ar frys ganddynt. Roedd rhif ffôn brys ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau ar gael pe byddai angen triniaeth frys y tu allan i oriau ar gleifion. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos ger y brif fynedfa, roedd ar neges y peiriant ateb, ac roedd wedi'i nodi ar wefan y practis.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth am sut i gadw eu dannedd a'u ceg yn iach. Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod pob claf wedi rhoi cydsyniad i'w driniaeth.

Cadarnhaodd yr holl gleifion eu bod yn cael eu cynnwys i'r graddau yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth unigol.

Gwelsom dystiolaeth bod hanesion meddygol cleifion yn cael eu hadolygu a'u diweddarau ym mhob apwyntiad ar gyfer triniaeth. Fe wnaeth yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiaduron gadarnhau bod y deintyddion yn holi am eu hanesion meddygol cyn cynnal unrhyw driniaeth ddeintyddol.

### Hawliau pobl

Gwnaethom sylwi bod polisi cydraddoldeb penodol ar waith yn y practis. Roedd y practis wedi'i leoli mewn adeilad dau lawr, gydag un ystafell driniaeth ar y llawr daear a dwy ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf. Roedd defnyddwyr cadair olwyn yn gallu cael mynediad at lefel ddaear y practis, ac roeddent yn gallu cael mynediad at y dderbynfa, y man aros ac un ystafell driniaeth.

## Gwrando a dysgu o adborth

Nododd ychydig dros chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn ymdrin â chwynion ac roedd hon wedi'i harddangos yn eglur yn y man aros. Fodd bynnag, nid oedd yr hysbysiad yn cynnwys manylion cyswllt cywir AGIC fel yr awdurdod cofrestru. Gwnaethom dynnu sylw rheolwr y practis at hyn, a chafodd hyn ei addasu ar unwaith yn ystod ein hymweliad.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion.

Gwnaeth mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau bod y practis deintyddol yn gofyn am eu safbwyntiau ynghylch y gwasanaeth a ddarperir, trwy holiaduron cleifion, er enghraifft.

Gwnaethom drafod dulliau'r practis ar gyfer casglu adborth gan y cleifion. Mae'r practis yn gwneud hynny drwy roi holiaduron i'w gleifion ac annog unrhyw adborth ysgrifenedig. Gwelsom ganlyniadau arolwg 2016, a oedd yn gadarnhaol iawn. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o adborth cleifion, gan ddangos i gleifion bod eu hadborth unigol wedi cael ei gasglu ac y gweithredwyd arno er mwyn gwella dysgu a gwella'r gwasanaeth.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Arddangos dadansoddiad o adborth cleifion yn y practis.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o fodloni'r rheoliadau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn awyrog.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn, y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob man yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd yr holl gleifion heblaw un a gwblhaodd holiadur yn teimlo, yn eu barn nhw, fod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd un tŷ bach deuryw at ddefnydd cleifion ac un tŷ bach ar gyfer staff. Roedd arwyddion ar gyfer yr holl gyfleusterau ac roeddent i'w gweld yn lân iawn.

Cawsom ein hysbysu gan y practis nad oedd profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, gwnaeth y practis gadarnhau bod yr holl ddyfeisiau cludadwy yn cael eu gwirio'n weledol yn rheolaidd. Gwnaethom argymhell bod y practis yn trefnu bod yr holl ddyfeisiau cludadwy yn cael eu profi gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod trwy'r adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn glir, ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn glir.

Gwnaethom nodi bod angen i lyfr damweiniâu'r practis gael ei ddisodli â llyfr 'Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR), sy'n cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Canfuom fod yr holl gemegion yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un yn cael ei adael mewn man cyhoeddus. Cawsom ein hysbysu gan y practis nad oedd ffeil benodol ar gael ar gyfer Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH). Roedd gweithdrefnau ar Reoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn cael eu cynnwys yn ffeil Iechyd a diogelwch y practis. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw daenlenni data unigol yn berthnasol i Reoli Sylweddau Peryglus i Iechyd ac nid oedd unrhyw asesiadau risg perthnasol ar waith. Mae'n ofynnol o dan ganllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch bod dalen ddata ac asesiad risg clir ar gael ar gyfer pob cemegyn neu sylwedd peryglus a gedwir yn yr adeilad.

Roedd system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom hefyd fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli i'r bagiau/cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i arddangos arwydd/hysbysiad gwastraff peryglus ar y drws, ac fe wnaeth y practis hwn ar unwaith yn ystod ein hymweliad.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod profion yn cael eu cynnal ar yr holl ddyfeisiau cludadwy.

Sicrhau bod yr holl ddamweiniâu'n cael eu cofnodi mewn llyfr sydd wedi'i gymeradwyo o dan Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR).

Dylid sicrhau bod ffeil benodol ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd ar gael a bod hon yn cynnwys dalenni data ac asesiadau risg unigol ar gyfer yr holl gemegau a gedwir yn yr adeilad.

#### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd y cyfleuster yn lân iawn, wedi'i gyfarparu'n dda, ac yn rhydd rhag annibendod. Dangosodd staff y broses ddadheintio a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar

ddadheintio. Fodd bynnag, roedd angen i'r hylenydd adnewyddu ei hyfforddiant, a chawsom wybod y byddai'r hyfforddiant perthnasol yn cael ei drefnu.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliad cynhwysfawr iawn o'i brosesau rheoli heintiau. Fodd bynnag, nid oedd y practis wedi defnyddio'r canllawiau a'r dull a gefnogir gan Ddeoniaeth Cymru.<sup>1</sup> Gwnaethom argymhell ei fod yn defnyddio'r dull hwn ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol. Mae'r dull archwilio'n cyd-fynd â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, sef y safon ar gyfer arferion dadheintio a rheoli heintiau mewn deintyddfeydd yng Nghymru.

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod y risg o groes-heintio mor isel ag y bo modd er mwyn diogelu cleifion a staff. Gwnaethom nodi hefyd bod offerynnau deintyddol yn cael eu storio'n unol â pholisi dadheintio cyfredol y practis.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod dull archwilio Deoniaeth Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer archwiliadau rheoli heintiau yn y dyfodol.

#### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol ac roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol. Roedd dau swyddog cymorth cyntaf penodedig yn y practis.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn cwmpo) yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod y practis yn trefnu'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys trwy eu rhoi mewn bocsys/pecynnau unigol sy'n berthnasol i'r argyfwng posibl, ac fe wnaeth y practis hynny yn ystod ein hymweliad. Gwnaethom nodi hefyd bod yr offer a ddefnyddir mewn argyfwng yn cynnwys dau bad dadebru cardio-pwlmonaidd. Cawsom wybod bod un yn cael

---

<sup>1</sup> <https://www.walesdeanery.org/cy>

ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddi staff / dibenion arddangos. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod y pad dadebru cardio-pwlmonaidd enghreifftiol yn cael ei gadw ar gyfer dibenion hyfforddi yn unig, a chytunodd y practis i wneud hyn.

Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r cyffuriau brys bob mis i sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio.

### **Diogelu plant ac oedolion mewn perygl**

Canfuwyd gennym fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, cawsom ein hysbysu gan y practis fod angen i bum aelod o staff adnewyddu eu hyfforddiant mewn diogelu oedolion agored i niwed a bod angen i un aelod o staff ddiweddarau ei hyfforddiant mewn diogelu plant. Cawsom sicrwydd ar lafar fod trefniadau eisoes ar waith i'r aelodau hynny o staff ddiweddarau eu hyfforddiant.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yr holl staff yn y practis yn meddu ar dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

#### **Yr hyn y mae angen ei wella**

Sicrhau bod y staff perthnasol yn diweddarau eu hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Gwnaethom edrych ar yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom sylwi bod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio a'u trefnu i helpu'r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da.

Roedd yr holl offer radiolegol yn cael eu cynnal a'u cadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Fe'n hysbyswyd ni gan y practis nad oedd yr offer pelydr-X yn ystafell driniaeth yr hylenydd yn cael eu defnyddio bellach. Gwnaethom gynghori'r practis i arddangos hysbysiad 'ddim yn cael ei ddefnyddio' ar yr offer, ac fe wnaeth y practis hyn ar unwaith yn ystod ein hymweliad.



Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff clinigol.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd blynyddol o ddelweddau pelydr-X.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau wedi cael eu cwblhau a/neu eu trefnu gan y practis.

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Trwy drafod â staff, fe'n hysbyswyd ni bod adolygiadau gan gymheiriaid rhwng staff clinigol yn cael eu cynnal a'u bod yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion. Gwnaethom gynghori'r practis i gadw cofnod o'r holl adolygiadau clinigol. Gwnaethom hefyd argymhell bod y practis yn defnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. Mae hwn yn ddull o hunanwerthuso sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut maen nhw'n gweithio ac sy'n galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

#### **Yr hyn y mae angen ei wella**

Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### **Cadw cofnodion**

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion. Yn gyffredinol, roedd tystiolaeth bod y practis cyfan yn cadw cofnodion clinigol boddhaol. Fodd bynnag, mae angen gwella arfer cadw cofnodion un deintydd er mwyn cynnwys rhagor o fanylder; yn benodol, o ran archwiliadau periodontol sylfaenol, opsiynau triniaeth a nodwyd, adrodd ar belydrau-X, sgrinio am ganser, a'r cyngor ynghylch rhoi'r

gorau i ysmygu a roddir i gleifion. O ystyried yr amrywiaeth a welsom o fewn cofnodion cleifion, argymhellir bod y practis yn cyflwyno modd o adolygu gan gymheiriaid, i'w helpu i lunio rhai safonau cytunedig ar gyfer cadw cofnodion, er mwyn sicrhau ansawdd cyson.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Datblygu safonau cyson, sy'n berthnasol i'r practis cyfan, ar gyfer yr holl waith cadw cofnodion cleifion, a chyflwyno system ar gyfer adolygu gan gymheiriaid, i gynorthwyo yn y gwaith o greu a chynnal y safonau hyn.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r safonau proffesiynol perthnasol.*

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth hwn yn un a oedd yn cael ei redeg yn dda iawn, gydag ymrwymiad cryf i ddarparu ansawdd uchel a rhoi sylw i fanylion.

Roedd amrediad o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir yn y practis.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd yn effeithiol ac yn gymwys yn ei rôl. Gan fod y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers blynyddoedd lawer, roedd cydberthynas dda rhyngddynt. Dywedasant wrthym eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw faterion neu bryderon ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda. Roedd gan yr holl staff fynediad at bolisiâu a gweithdrefnau.

Gwelsom hefyd fod gan yr holl staff fynediad at amrediad eang o hyfforddiant a bod hyn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom hefyd dystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd tîm rheolaidd.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod tystysgrif cofrestrriad AGIC yn cael ei harddangos mewn lle amlwg yn y ddeintyddfa fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwnedd Hepatitis B yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a chanfuom eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod nad oedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiad adolygu a/neu nid oedd y fersiynau'n cael eu rheoli. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiad adolygu a/neu reolaeth dros wahanol fersiynau, ac y dylai sicrhau bod yr holl staff yn llofnodi'r polisïau a gweithdrefnau i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Canfuom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt brys a'i oriau agor ar fynedfa'r adeilad. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion hefyd yn cael eu harddangos yn glir.

## 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#). [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#)

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a [gwasanaethau gofal iechyd annibynnol](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion</b>	<b>Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

### Gwasanaeth: Gofal Deintyddol Madoc

### Dyddiad yr arolygiad: 1 Awst 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**



## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Gofal Deintyddol Madoc

**Dyddiad yr arolygiad:** 1 Awst 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Arddangos dadansoddiad o adborth cleifion yn y practis.	Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Adran 2.1	Mae adborth wedi'i arddangos yn yr ystafell aros.	Lydia Bullock	Cwblhawyd
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
Sicrhau bod profion yn cael eu cynnal ar yr holl ddyfeisiau cludadwy.	Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989 a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a	Mae'r profion wedi cael eu trefnu ac fe fyddant yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos nesaf.	Lydia Bullock	Un wythnos

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Diogelwch			
Sicrhau bod yr holl ddamweiniau'n cael eu cofnodi mewn llyfr sydd wedi'i gymeradwyo o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR).	Yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch	Mae'r llyfr RIDDOR yn cael ei gadw ar wahân, y tu ôl i'r dderbynfa.	Lydia Bullock	Cwblhawyd
Dylid sicrhau bod ffeil benodol ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd ar gael a bod hon yn cynnwys dalenni data ac asesiadau risg unigol ar gyfer yr holl gemegau a gedwir yn yr adeilad.	Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd 2002	I'w gosod mewn ffeil ar wahân yr wythnos hon.	Lydia Bullock	Un wythnos
Sicrhau bod dull archwilio Deoniaeth Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer archwiliadau rheoli heintiau yn y dyfodol.	Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05	Defnyddiwyd hwn ar gyfer ein harchwiliad diwethaf, a ddigwyddodd bythefnos yn ôl.	Lydia Bullock	Cwblhawyd
Sicrhau bod y staff perthnasol yn diweddarau eu hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.	Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.3.3, 8.5	Yn dal i chwilio am gwrs yn yr ardal sydd ar gael i'r staff.	Lydia Bullock	Chwe mis
Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics	Deoniaeth	Defnyddio hwn yn ystod y pedair	Lydia Bullock	Pedair

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.	Cymru	wythnos nesaf i weld yr hyn y gallwn ei wella.		wythnos
Datblygu safonau cyson, sy'n berthnasol i'r practis cyfan, ar gyfer yr holl waith cadw cofnodion cleifion, a chyflwyno system ar gyfer adolygu gan gymheiriaid, i gynorthwyo yn y gwaith o greu a chynnal y safonau hyn.	Rheoliad 14 (2)	Mae'r templedi cofnodion wedi cael eu newid ac maen nhw'n glir i bob aelod o staff.	Lydia Bullock	Cwblhawyd
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Ddim yn berthnasol				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): Lydia Bullock**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 29.8.2017**